

LLAIS PEDR

HELLO YELLOW

Wrth i ni ddathlu Diwrnod Melyn, rydym yn cael ein hatgoffa am bwysigrwydd gofalu am ein iechyd meddwl a'n lles, siarad yn agored am sut rydym yn teimlo ac, yn bwysigaf oll, edrych ar ôl ein gilydd.

Mae'n anodd credu mai dim ond pythefnos sydd ar ôl o hanner tymor cyntaf y flwyddyn academaidd hon. Mae wedi bod yn ddechrau hynod gadarnhaol a llwyddiannus, a hoffem ddiolch i'n disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni a gofalwyr am y gefnogaeth, y gwaith caled a'r ymroddiad sydd wedi gwneud hyn yn bosibl.

Wrth i ni nesáu at y pythefnos olaf, mae ein neges i bawb yn syml: daliwch ati a rhowch eich gorau glas. Gadewch i ni orffen yr hanner tymor mor gryf a chadarnhaol ag y gwnaethom ei ddechrau, gan barhau i fod yn garedig â ni ein hunain a'n gilydd.

Felly, gadewch i ni annog ein disgyblion a'ch plant i wneud y gorau o'r pythefnos olaf hyn: gweithio'n galed, bod yn garedig, gofalu am ei gilydd a rhoi eu gorau glas!

As we celebrate Hello Yellow Day, we are reminded of just how important it is to look after our mental health and wellbeing, to talk openly about how we are feeling and, above all, to look out for one another.

It is hard to believe that we have just two weeks remaining of the first half term of this academic year. It has been an extremely positive and successful start, and we would like to thank our pupils, staff, governors, parents and carers for the support, hard work and commitment that have made this possible.

As we approach the final two weeks, our message to everyone is simple: keep going and give of your very best. Let's finish the half term as strongly and positively as we started it, while continuing to be kind to ourselves and to each other.

So let's encourage our pupils and your children to make these final two weeks count: work hard, be kind, look after one another and give of their very best!

Be Kind

Cofion cynnes,
Mrs Carys Morgan

It's Cool To be Kind

#HelloYellow #HelloYellow #HelloYellow #HelloYellow #HelloYellow

YOUNGMiNDS YOUNGMiNDS YOUNGMiNDS YOUNGMiNDS YOUNGMiN

ADBORTH / FEEDBACK

Yn Ysgol Bro Pedr, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod adborth yn cefnogi dysgu ystyrlon ac yn helpu pob disgybl i wneud cynnydd. Mae ymchwil yn dangos mai'r adborth mwyaf effeithiol yw'r adborth sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda, nodi'r camau nesaf yn eu dysgu, a rhoi cyfleoedd iddynt weithredu ar y cyngor a roddir.

Yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar sylwadau ysgrifenedig, rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau adborth, gan gynnwys adborth llafar, hunanasesu ac asesu gan gyfoedion, adborth dosbarth cyfan, a chyfleoedd penodol i fyfyrio a gwella gwaith. Mae'r dulliau hyn yn galluogi athrawon i ddarparu adborth amserol a phwrpasol, tra'n annog disgyblion i gymryd rôl weithredol yn eu datblygiad eu hunain.

Mae'r tudalennau nesaf yn amlinellu'r strategaethau adborth a ddefnyddir ar draws yr ysgol ac yn esbonio sut maent yn cefnogi disgyblion i ddatblygu hyder, annibyniaeth a dealltwriaeth ddyfnach o'u dysgu. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod adborth yn arf pwerus sy'n arwain at welliant a llwyddiant i bob dysgwr.

At Ysgol Bro Pedr, we are committed to ensuring that feedback supports meaningful learning and helps every pupil make progress. Research shows that feedback is most effective when it helps pupils understand what they have done well, identify their next steps, and provides opportunities to act on the advice they receive. Rather than relying solely on written comments, our approach uses a range of feedback strategies, including verbal feedback, self and peer assessment, whole-class feedback and dedicated improvement and reflection time. These approaches allow teachers to provide timely, purposeful feedback while encouraging pupils to take an active role in improving their learning.

The following pages outline the feedback strategies we use across the school and explain how they help pupils develop confidence, independence and a deeper understanding of their learning.

STRATEGAETHAU ADBORTH YSGOL BRO PEDR CEFNOGI DYSGU EFFEITHIOL TRWY DDULLIAU ADBORTH SEILIEDIG AR YMCHWIL

Ffocws ar Adborth, Nid Marcio...
Ym Mro Pedr, credwn dylai adborth fod yn amserol, gweithredadwy, gan wneud defnydd o amryw o strategaethau gwahanol. Pwysleisir EEF "written marking alone is unlikely to improve learning outcomes if not combined with meaningful feedback strategies." Rydym, felly, yn osgoi amserlenni marcio anhyblyg ac yn canolbwyntio ar strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar ddysgu a datblygiad myfyrwyr.

01 Adborth Lafar

- **Beth yw e'?**: Mae athrawon yn rhoi adborth amser real yn ystod gwersi neu weithgareddau grŵp, gan helpu myfyrwyr i wneud cywiriadau a gwelliannau yn y fan a'r lle.
- **Pam mae'n gweithio**: Mae'r EEF yn nodi y 'gall adborth di-oed fod yn fwy effeithiol nag oedi cyn rhoi adborth' am ei fod yn helpu myfyrwyr i wneud addasiadau ar y pryd tra mae'r dysgu dal yn ffres.
- **Esiampl**: Mae athrawon yn mynd o amgylch y dosbarth gan wneud sylwadau ar berfformiad y myfyrwyr yn ystod gwaith annibynnol.

02 Adborth Ysgrifenedig

- **Beth yw e'?:** Sylwadau penodol ar waith myfyriwr, gan ganolbwyntio ar beth aeth yn dda a beth ellir ei wella.
- **Pam y mae'n gweithio:** Mae ymchwil yn dangos y 'dylai adborth ganolbwyntio ar nodau a strategaethau dysgu penodol' (EEF), gan helpu myfyrwyr i ddeall yn glir beth yw eu camau nesaf.
- **Enghraifft:** Yn lle graddau syml, mae athrawon yn darparu sylwadau adeiladol ar sut y gall myfyrwyr wella'r ffordd maent yn cwblhau eu tasgau.

03 Hunan Asesu/Asesu Cyfoed

- **Beth yw e'?:** Gall myfyrwyr asesu eu gwaith eu hunain neu waith eu cyfoedion yn erbyn meini prawf a osodwyd, gan feithrin y gallu i fyfyrio a dysgu'n annibynnol.
- **Pam y mae'n gweithio:** Mae'r EEF yn pwysleisio bod 'hunan-reoleiddio a myfyrio yn ffyrdd grymus o helpu myfyrwyr i wneud cynnydd' gan ganiatáu iddyn nhw berchnogi eu dysgu.
- **Enghraifft:** Mae myfyrwyr yn gwerthuso gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant i nodi beth weithiodd yn dda a beth ellir ei wella.

04 TAG

- **Beth yw e'?:** Neilltuo amser yn y stafell ddosbarth i fyfyrwyr ystyried yr adborth a gwneud gwelliannau i'w gwaith.
- **Pam y mae'n gweithio:** Mae'r EEF yn pwysleisio bod 'myfyrwyr angen amser i weithredu ar yr adborth' er mwyn iddo fod yn effeithiol.Mae amser TFI (Tasg, Adborth, Gwelliant) yn sicrhau bod myfyrwyr yn prosesu adborth ac yn ei roi ar waith i wella eu dealltwriaeth a'u sgiliau.
- **Enghraifft:** Ar ôl derbyn adborth, mae'r myfyrwyr yn treulio amser yn adolygu eu gwaith neu'n cwblhau tasgau'n seiliedig ar yr awgrymiadau a wnaed gan eu hathro. Gall hwn hefyd fod yn gyfle i ail-edrych ar, ac ail-addysgu camsyniadau cyffredin.

05 Dosbarth Cyfan

- **Beth yw e'?:** Yn hytrach na darparu adborth ysgrifenedig unigol ar bob darn o waith, mae athrawon yn rhoi adborth i'r dosbarth cyfan i fynd i'r afael â thueddiadau a chryfderau cyffredin, a meysydd i'w gwella a welwyd yng ngwaith y myfyrwyr.
- **Pam y mae'n gweithio:** Mae ymchwil yn dangos bod 'adborth dosbarth cyfan yn caniatáu i athrawon dargedu'r materion mwyaf perthnasol a darparu camau ymarferol y gall y dosbarth cyfan eu cymryd' (EEF).
- **Enghraifft:** Ar ôl adolygu set o lyfrau, mae'r athro'n tynnu sylw at gryfderau a chamsyniadau cyffredin, a meysydd i'w gwella ar gyfer y dosbarth cyfan, ac yna'n darparu enghreifftiau o atebion neu strategaethau i gywiro camgymeriadau.

BETH WELWCH CHI YN EIN LLYFRAU ...

- Beth yw e'?: Mae ein hadborth codau lliw o fewn llyfrau myfyrwyr yn eu helpu i ymateb i adborth a chanolbwyntio ar brif feysydd i'w gwella.
- Pam y mae'n gweithio: Mae'r dull clir a gweledol hwn yn helpu myfyrwyr i nodi'n hawdd beth maen nhw'n ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

PORFFOR

Mae athrawon yn defnyddio inc porffor ar gyfer adborth ysgrifenedig. Rydym yn dewis porffor yn hytrach na coch am ei fod â naws llai negyddol a mwy cefnogol, sy'n hyrwyddo amgylchedd dysgu positif lle mae adborth yn teimlo'n adeiladol yn hytrach na beirniadol.

PINC PERFFAITH


Yn cael ei ddefnyddio gan athrawon i dynnu sylw at bwyntiau cryf a meysydd lle mae'r myfyrwyr yn rhagori.

AROLEUWR GWYRDD

Yn cael ei ddefnyddio gan athrawon i nodi meysydd sydd angen eu gwella neu lle mae angen gwneud gwaith pellach.

GWYRDD

Yn cael ei ddefnyddio gan fyfyrwyr i ymateb i adborth yr athro a gwneud gwelliannau.



Mae amser TAG yn rhan hanfodol o'r broses adborth yn Ysgol Bro Pedr, ac mae'n caniatáu i fyfyrwyr weithredu ar yr adborth maent yn ei dderbyn a gwneud gwelliannau i'w gwaith. Dyma fanylion am y ffordd mae myfyrwyr yn elwa o amser TAG:

Myfyrio ar Adborth:
Mae myfyrwyr yn cymryd yr amser i adolygu'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan athrawon, cyfoedion, neu yn sgil hunanasesu.

Cywiro Camsyniadau:
Defnyddir amser TAG i nodi a chywiro unrhyw gamddealltwriaeth neu gamsyniadau a gododd yn ystod y broses ddysgu.

Cyfle i Ail-addysgu:
Gall athrawon ddefnyddio amser TAG i ail-addysgu cysyniadau neu sgiliau penodol a oedd yn heriol i'r myfyrwyr, gan sicrhau eu bod yn deall y deunydd yn well.

Gwneud Gwelliannau:
Mae myfyrwyr yn cael cyfle i weithredu'n uniongyrchol ar yr adborth er mwyn gwella eu gwaith, neu eu dealltwriaeth o bwnc.

Defnyddio Pen Ysgrifennu Gwyrdd ar gyfer Ymatebion:
Yn ystod amser TAG, mae myfyrwyr yn defnyddio pen ysgrifennu gwyrdd i wneud cywiriadau, i ateb cwestiynau'r athro, neu i fireinio eu gwaith ar sail yr adborth.

Canolbwyntio ar Feysydd a Dargedwyd:
Mae amser TAG yn helpu myfyrwyr i ganolbwyntio ar y meysydd penodol sydd angen eu gwella, gan roi mwy o ffocws i'r dysgu a'i wneud yn fwy effeithiol.

Hyrwyddo Dysgu Annibynnol:
Trwy ymateb i adborth yn annibynnol, mae myfyrwyr yn datblygu sgiliau hunan-reoleiddio a'r gallu i feddwl yn feirniadol.

Annog Meddylfryd Twf:
Mae'n rhoi pwyslais ar ddysgu yn sgil adborth fel proses barhaus, gan helpu myfyrwyr i ystyried heriau fel cyfleoedd twf.

Mae amser TAG yn hanfodol er mwyn troi adborth yn gamau ymarferol, gan sicrhau cynnydd parhaus yn y dysgu.

FEEDBACK STRATEGIES AT BRO PEDR SCHOOL SUPPORTING EFFECTIVE LEARNING THROUGH RESEARCH-BASED FEEDBACK APPROACHES

Why We Focus on Feedback, Not Marking...

At Bro Pedr School, we believe feedback should be timely, actionable, and varied. The EEF points out that "written marking alone is unlikely to improve learning outcomes" if not combined with meaningful feedback strategies. We, therefore, avoid rigid marking schedules and focus on strategies that have the most positive impact on student learning and development.

01 Immediate Verbal Feedback

- **What it is**: Teachers give real-time feedback during lessons or group activities, helping students make corrections and improvements on the spot.
- **Why it works**: The Education Endowment Foundation (EEF) states that "immediate feedback can be more effective than delayed feedback" as it helps students make timely adjustments while the learning is still fresh.
- **Example**: Teachers circulate in class, providing comments on student performance during independent work.

02 Written Feedback

- **What it is**: Targeted comments on student work, focusing on what went well and what can be improved.
- **Why it works**: Research shows that "feedback should focus on specific learning goals and strategies" (EEF), helping students understand their next steps clearly.
- **Example**: Instead of simple grades, teachers provide constructive comments on how students can improve their approach to tasks.

03 Peer and Self-Assessment

- What it is: Students assess their own or their peers' work against set criteria, fostering reflection and independent learning.
- Why it works: The EEF emphasizes that "self-regulation and reflection are powerful drivers of student progress" as students take ownership of their learning.
- Example: Students evaluate each other's work, using a success criteria noting what worked well and what can be improved.

04 TFI Time

- **What it is**: Allocating classroom time for students to reflect on feedback and make improvements to their work.
- **Why it works**: The EEF stresses that "students need time to act on feedback" for it to be effective. TFI time ensures that students process feedback and apply it to improve their understanding and skills.
- **Example**: After receiving feedback, students spend time revising their work or completing tasks based on the suggestions provided by their teacher. This can also be an opportunity to revisit, reteach common misconceptions

05 Whole Class

- **What it is**: Rather than providing individual written feedback on every piece of work, teachers offer whole-class feedback to address common trends, strengths, and areas for improvement observed in students' work.
- **Why it works**: Research shows that "whole-class feedback allows teachers to target the most relevant issues and provide actionable steps to the entire class" (EEF).
- **Example**: After reviewing a set of books, a teacher highlights common strengths, misconceptions, and areas for improvement with the entire class, and then provides model answers or strategies for correcting errors.

WHAT YOU WILL SEE IN OUR BOOKS....

- What it is: Our color-coded feedback system within students' books helps them respond to feedback and focus on key areas of improvement.
- Why it works: This clear and visual approach helps students easily identify what they're doing well and where they need to improve.

PURPLE PEN

Teachers use purple ink for written feedback. We choose purple over red as it has a less negative, more supportive tone, encouraging a positive learning environment where feedback feels constructive rather than critical.

PERFECT PINK

Used by teachers to highlight strong points and areas where students excel.

GREEN HIGHLIGHTER

Used by teachers to indicate areas that need improvement or where further work is required.

GREEN PEN

Used by students to respond to teacher feedback and make improvements.



TFI time is a crucial part of the feedback process at Bro Pedr School, allowing students to act on the feedback they receive and make improvements to their work. Here's a breakdown of how TFI time benefits students:

Reflect on Feedback:
Students take time to review the comments and suggestions provided by teachers, peers, or self-assessments.

Address Misconceptions:
TAG time is used to identify and correct any misunderstandings or misconceptions that arose during the learning process.

Opportunity for Re-Teaching:
Teachers may use TAG time to re-teach specific concepts or skills that students found challenging, ensuring they have a better grasp of the material.

Make Improvements:
Students are given the opportunity to directly apply the feedback to improve their work or understanding of a topic.

Use Green Pen for Responses:
During TFI time, students use a green pen to make corrections, answer teacher questions, or refine their work based on feedback.

Focus on Targeted Areas:
TFI time helps students concentrate on the specific areas where improvement is needed, leading to more focused and effective learning.

Promotes Independent Learning:
By responding to feedback independently, students develop skills in self-regulation and critical thinking.

Encourages a Growth Mindset:
Emphasizes learning from feedback as an ongoing process, helping students view challenges as opportunities for growth.

TFI time is essential for turning feedback into actionable steps, ensuring continuous progress in learning.

SENEDD BRO PEDR



Roedd hi'n braf cynnal cyfarfod cyntaf ein Senedd am eleni ar ddydd Gwener, 9fed o Hydref. Cafwyd cynrychiolaeth o bob un o'n fforymau sef y Fforymau Blwyddyn, Cymreictod, Dyngarol, Cydraddoldeb, Dysgu ac Addysgu, Iechyd a Lles, Eco a Digidol.

Cadeiriodd Charley Wood y cyfarfod gyda Tom Biddulph yn ysgrifennydd.

Bu'n gyfle i aelodau o flynyddoedd 2 i 13 i leisio eu barn ar amryw o faterion yn yr ysgol sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae sicrhau bod llais ni fel dysgwyr yn cael ei glywed yn bwysig iawn i'r ysgol ac mae'r Senedd yn gyfle i ni i leisio ein barn. Er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu gweithredu, byddwn fel Prif Swyddogion yn mynychu cyfarfod nesaf ein Tîm Arwain er mwyn i ni allu cymryd camau pellach.

Yn ein cyfarfod cyntaf, trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys sefyllfa pryderus ein tai bach, argaeledd a chyflwr gliniaduron, Radio Bro Pedr, offer chwarae ein disgyblion oed cynradd, ein Prynhawn Lles ac ailgylchu'n gyfrifol.

Diolch i'n cyd-ddisgyblion am sgyrsiau aeddfed ac edrycha'r Senedd ymlaen at ein cyfarfod nesaf.

Tom, Medi, Cain a Charley
Prif Swyddogion

It was great to hold our first Senedd meeting for this year on Friday, 9th of October. There was representation from each of our forums namely the Year, Welshness, Humanitarian, Equality, Learning and Teaching, Health and Wellbeing, Eco and Digital forums. Charley Wood chaired the meeting with Tom Biddulph as secretary.

It was an opportunity for members from Years 2 to 13 to voice their opinion on various issues in the school that are important to them.

Ensuring that our voice as learners is heard is very important to the school and the Senedd is an opportunity for us to voice our opinion. To ensure that issues raised are implemented, we as Head Prefects will attend a Leadership Team meeting so that we can take further action.

At our first meeting, we discussed a number of issues including the worrying situation of our toilets, the availability and state of laptops, Radio Bro Pedr, the play equipment of our primary age pupils, our Wellbeing Afternoon and recycling responsibily.

Thank you to our fellow students for mature conversations. The Senedd looks forward to our next meeting.

Tom, Medi, Cain and Charley
Head Prefects

AELODAU SENEDD BRO PEDR
SENEDD BRO PEDR MEMBERS

Senedd Ysgol Bro Pedr



EMPOWER EVERY VOICE

Tom Biddulph - Prif Swyddog / Head Prefect
Medi Jenkins - Prif Swyddog / Head Prefect
Cain Owen - Prif Swyddog / Head Prefect
Charley Wood - Prif Swyddog / Head Prefect
Mali Davies - Fforwm Blwyddyn 2 / Year 2 Forum
Elin Parker - Fforwm Blwyddyn 2 / Year 2 Forum
Abigail Gately - Fforwm Blwyddyn 3 & 4 / Year 3 & 4 Forum
Darci Ferrznolo - Fforwm Blwyddyn 3 & 4 / Year 3 & 4 Forum
Ceirios Nock & Olwen Ward - Fforwm Blwyddyn 5 & 6 / Year 5 & 6 Forum
Madog Morgan & Samuel Palmer - Fforwm Blwyddyn 5 & 6 / Year 5 & 6 Forum
Poppy Philemon - Fforwm Blwyddyn 7 & 8 / Year 7 & 8 Forum
Nia Jones - Fforwm Blwyddyn 7 & 8 / Year 7 & 8 Forum
Cadi Sion Jones - Fforwm Blwyddyn 9 & 10 / Year 9 & 10 Forum
Celyn Jones - Fforwm Blwyddyn 9 & 10 / Year 9 & 10 Forum
Julia Kosidlo - Fforwm Blwyddyn 11, 12 & 13 / Year 11, 12 & 13 Forum
Huw Edwards - Fforwm Blwyddyn 11, 12 & 13 / Year 11, 12 & 13 Forum
Harvey Walters - Fforwm Cydraddoldeb / Equality Forum
Eva Bevan - Fforwm Cydraddoldeb / Equality Forum
Fflur Meredith - Fforwm Cymreictod / Welshness Committee
Trystan Bryn Evans - Fforwm Cymreictod / Welshness Committee
Nathan Coleman - Fforwm Digidol / Digital Forum
Eleanor Dean - Fforwm Digidol / Digital Forum
Sara Jones - Fforwm Dyngarol / Humanitarian Forum
Zoe Evans - Fforwm Dyngarol / Humanitarian Forum
Hari Del Griffiths - Fforwm Dysgu ac Addysgu / Teaching and Learning Forum
Annie Thomas - Fforwm Dysgu ac Addysgu / Teaching and Learning Forum
Molly Williams - Fforwm Eco / Eco Forum
Erica Burtenshaw-Jones - Fforwm Eco / Eco Forum
Cari Wells - Fforwm Iechyd a Lles / Health and Wellbeing Forum
Jacob Smith - Fforwm Iechyd a Lles / Health and Wellbeing Forum
Karina Jenner-Butler - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination
Chloe Baker - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination
Mair Hopkins - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination
Carmelita Leeke - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination
Lyra Waters Neale - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination
Ethan Gale - Enwebiad Tîm Arwain / SLT nomination





SENEDD BRO PEDR

















Senedd Ysgol Bro Pedr

HELLO YELLOW

Dydd Gwener, gwisgodd disgyblion ac aelodau staff liw melyn i ddathlu a chefnogi Diwrnod Hello Yellow, gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd meddwl a lles. Roedd yn hyfryd gweld y gymuned ysgol gyfan yn cymryd rhan. Yn ogystal, creodd disgyblion Cynradd nodiadau Post-it melyn gyda negeseuon caredig a chadarnhaol, a'u harddangos o amgylch yr ysgol i ledaenu caredigrwydd a chodi calon eraill

On Friday, pupils and staff proudly wore yellow to support Hello Yellow Day and help raise awareness of the importance of mental health and wellbeing. Across the school, there was a wonderful sea of yellow, showing our commitment to kindness and supporting one another. Primary pupils also created and displayed cheerful yellow Post-it notes around the school, sharing positive messages of kindness and encouragement to brighten everyone's day.









HELLO YELLOW





















HELLO YELLOW





















Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
World Mental Health Day

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

10 HYDREF

Cymorth i rieni, gofalwyr a phobl ifanc.
Cofiwch...mae rhywun wastad ar gael i wrando.

10 OCTOBER

Support for families and young people.
Remember...there is always someone ready to listen.

YoungMinds

Cyngor i rieni a gofalwyr sy'n poeni am iechyd meddwl eu plentyn.
0808 802 5544
youngminds.org.uk/parents-helpline

Advice for parents and carers worried about their child's mental health.
0808 802 5544
youngminds.org.uk/parents-helpline

Meic

Cymorth am ddim yn y Gymraeg a'r Saesneg i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed.
080880 23456
Testun: 07943 114 449
meic.cymru

Free support in Welsh and English for anyone aged 25 and under.
080880 23456
Text: 07943 114 449
meic.cymru

Childline

Cymorth preifat, am ddim a chyfrinachol 24/7 yn y DU i unrhyw un dan 19 oed.
0800 1111
24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos
childline.org.uk

Free, private, and confidential 24/7 support service in the UK for anyone under the age of 19.
0800 1111
24 hours a day, 7 days a week
childline.org.uk

Y Samariaid / Samaritans

Cymorth emosiynol a rhywun i wrando os ydych yn cael amser anodd.
116 123 24/7
Llinell Gymraeg: 0808 164 0123*
samaritans.org

Emotional support and someone to listen when you are having a difficult time.
116 123 24/7
Welsh language line: 0808 164 0123*
samaritans.org

Tir Dewi

Cymorth cyfrinachol am ddim i ffermwyr a'u teuluoedd sy'n wynebu anawsterau.
0800 121 4722
7yb–10yh bob dydd.
tirdewi.wales

Free, confidential support for farmers and their families facing difficulties.
0800 121 4722
7am –10pm every day.
tirdewi.wales

DPJ Foundation

Cymorth iechyd meddwl cyfrinachol i'r gymuned amaethyddol, gyda mynediad at gwnsela.
0800 587 4262
7yb–10yh bob dydd.
thedpjfoundation.co.uk

Confidential mental health support for the farming community, with access to counselling.
0800 587 4262
7 a.m.–10 p.m. every day.
thedpjfoundation.co.uk

Cymorth brys / Urgent support

GIG 111 Cymru: ffoniwch 111, opsiwn 2.
Cymorth iechyd meddwl brys i bob oedran.
24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Perygl uniongyrchol? Ffoniwch 999.

NHS 111 Wales: call 111, option 2.
Urgent mental health support for all ages.
24 hours a day, 7 days a week.

Immediate danger? Call 999.

Gallwch hefyd gysylltu â'ch meddyg teulu neu'r ysgol.

You can also contact your GP or the school.

EIN PRYNHAWN LLES

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

Wrth i ni nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yr wythnos hon, roeddem yn falch iawn o ystyried llwyddiant ein Prynhawniau Lles ar gyfer Blynyddoedd 7-9, sy'n cael eu cynnal bob dydd Gwener yn Ail Wythnos ein hamserlen. Mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd corfforol, perthnasoedd cadarnhaol, hyder a lles emosiynol.

Gall disgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o glybiau a gweithgareddau, gan gynnwys ffitrwydd Hyrox, cerdded, dartiau, dadlau, crefftau, gemau a choginio, gan sicrhau bod rhywbeth i bawb ei fwynhau. Mae wedi bod yn wych gweld disgyblion yn rhoi cynnig ar brofiadau newydd, datblygu sgiliau newydd a meithrin cyfeillgarwch y tu hwnt i'w dosbarthiadau arferol.

Yn Ysgol Bro Pedr, credwn fod cefnogi lles yr un mor bwysig â chefnogi llwyddiant academaidd, ac mae'r prynhawniau hyn yn helpu i greu cymuned ysgol iach, gytbwys a ffyniannus.











OUR WELLBEING AFTERNOON

3 GOOD HEALTH AND WELL-BEING

As we marked World Mental Health Day this week, we were delighted to reflect on the success of our Wellbeing Afternoons for Years 7-9, held every Friday in Week 2 of our timetable. These sessions provide valuable opportunities for pupils to take part in activities that promote physical health, positive relationships, confidence and emotional wellbeing.

Pupils can participate in a wide range of clubs and activities, including Hyrox fitness, walking, darts, debating, crafts, games and cooking, ensuring there is something for everyone to enjoy. It has been wonderful to see pupils trying new experiences, developing new skills and building friendships beyond their usual classes.

At Ysgol Bro Pedr, we believe that supporting wellbeing is just as important as supporting academic success, and these afternoons are helping to create a healthy, balanced and thriving school community.













DIWYLLIANT DI-FFÔN
PHONE-FREE CULTURE

Ein disgyblion ar Newyddion S4C
Roeddem yn hynod falch o'n disgyblion Blwyddyn 8 a ymddangosodd ar Newyddion S4C yn ddiweddar i drafod effaith ein diwylliant di-ffôn yn yr ysgol. Siaradodd ein disgyblion yn hynod aeddfed a hyderus am sut maent bellach yn sgwrsio mwy wyneb yn wyneb, yn cymdeithasu, yn canolbwyntio mwy yn y gwersi ac yn chwarae gemau amser egwyl a chinio yn dilyn cyflwyno ein diwylliant di-ffôn.
Llongyfarchiadau mawr iddynt am gynrychioli ein hysgol mor arbennig!
Gallwch wylio'r clip llawn drwy sganio'r cod QR yma.





SCAN ME!

Our pupils on S4C News
We were extremely proud of our Year 8 pupils who recently appeared on S4C News to discuss the impact of our phone-free culture at the school. Our pupils spoke with great maturity and confidence about how they now converse more face-to-face, socialise, concentrate better in lessons,and play games during break and lunch times following the introduction of our phone-free culture.
Huge congratulations to them for representing our school so brilliantly!
You can watch the full clip by scanning this QR code.

PLENTYNDOD HEB FFÔN CLYFAR
SMARTPHONE FREE CHILDHOOD

Yn Ysgol Bro Pedr, rydym yn falch o gefnogi ymgyrch Plentyndod Heb Ffôn Clyfar. Credwn y dylai plentyndod fod yn llawn cyfleoedd i siarad, chwarae, dysgu, cymdeithasu a meithrin perthnasoedd ystyrlon wyneb yn wyneb, heb y tynnu sylw a'r pwysau cyson y gall ffonau clyfar eu hachosi. Mae gan dechnoleg le pwysig yn ein bywydau, ond credwn hefyd fod ein plant yn haeddu'r amser a'r gofod i feithrin cyfeillgarwch, cyfathrebu wyneb yn wyneb, cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, canolbwyntio ar eu dysgu a mwynhau'r profiadau sy'n gwneud plentyndod yn arbennig.

Mae ein diwylliant di-ffôn yn yr ysgol eisoes yn helpu ein disgyblion i fod yn fwy presennol, cyfathrebu â'i gilydd a mwynhau eu hamser egwyl ac amser cinio gyda'i gilydd. Drwy weithio mewn partneriaeth â rhieni a gofalwyr, rydym yn gobeithio annog agwedd iach a chytbwys tuag at dechnoleg, gan roi'r gofod i'n plant a'n pobl ifanc fwynhau plentyndod cyhyd â phosibl.



SMARTPHONE FREE CHILDHOOD




At Ysgol Bro Pedr, we are proud to support the Smartphone Free Childhood movement. We believe that childhood should be filled with opportunities to talk, play, learn, socialise and build meaningful relationships face to face, without the constant distraction and pressures that smartphones can bring. Technology has an important place in our lives, but we also believe our children deserve the time and space to develop friendships, communicate face to face, be active, concentrate on their learning and enjoy the experiences that make childhood special.

Our phone-free culture in school is already helping our pupils to be more present, communicate with one another and enjoy their break and lunchtime together. By working in partnership with parents and carers, we hope to encourage a healthy and balanced approach to technology, giving our children and young people the space to enjoy childhood for as long as possible.

SMARTPHONE FREE CHILDHOOD

Kids and smartphones – what's the big deal?



Opportunity cost

More scrolling mean less time for play, movement, reading and real-life connection – the building blocks of a healthy childhood.



Harmful content

Extreme, explicit content is just a click away – often served by algorithms, even when kids aren't looking for it.



Mental health

Since smartphones became widespread, teen anxiety, depression and self-harm have surged. Early use is linked to poorer mental health.



Addiction

Apps are designed to hook kids in. The longer they scroll, the more money tech companies make – at any cost.



Attention

Smartphones hijack focus. Constant pings and notifications make it harder for kids to concentrate, learn, and enjoy deep focus.



Family life

Phones can quietly dominate home life – fuelling arguments, draining attention, and crowding out real connection between parents and kids.



Cyberbullying

Fallouts don't end at school anymore. They follow kids home, with no off switch and nowhere to escape the pressure.



Sleep

Blue light and late-night scrolling disrupt rest and recovery – leaving kids wired, overtired, and struggling to function the next day.



Grooming

Predators target kids on popular apps like TikTok and Snapchat – especially when they first get unsupervised smartphone access.

SMARTPHONE FREE CHILDHOOD

Join the growing movement of parents choosing to delay smartphones and social media.

SMARTPHONEFREECHILDHOOD.ORG

FFAIR LYFRAU SCHOLASTIC
SCHOLASTIC BOOK FAIR

Diolch o galon i'n cymuned ysgol am gefnogi ein Ffair Lyfrau Scholastic yr wythnos hon. Mae pob cefnogaeth yn ein helpu i feithrin cariad at ddarllen ymhlith ein plant a'n pobl ifanc. Roedd yn hyfryd gweld cymaint yn mwynhau dewis eu llyfrau newydd!





A heartfelt thank you to our school community for supporting our Scholastic Book Fair this week. All support helps us foster a love of reading among our children and young people. It was wonderful to see so many enjoying choosing their new books!

CROESO

WELCOME TO THE TEAM!

Rydym yn falch iawn o groesawu Joscelyn Burton, Victoria Haigh a Mali Williams i'n tîm ym Mro Pedr. Mae'r tair wedi ymuno â'n tîm yr wythnos hon fel Cynorthwywyr Addysgu Lefel 2, gan gefnogi ein disgyblion yn ddyddiol.

Bydd Mali yn gweithio yn ein campws uwchradd, Joscelyn yn ein campws cynradd a Victoria yng Nhanolfan y Bont.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw i gyd a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu rolau newydd.

Croeso cynnes iawn i deulu Bro Pedr!

We are delighted to welcome Joscelyn Burton, Victoria Haigh and Mali Williams to our team at Bro Pedr.

All three have joined our team this week as Level 2 Teaching Assistants, supporting our pupils on a daily basis.

Mali will be based at our secondary-age campus, Joscelyn at our primary-age campus and Victoria in Canolfan y Bont.

We look forward to working with them all and wish them every success in their new roles.

A very warm welcome to our Bro Pedr family!








COFFI A CHLONC

Diolch yn fawr i'r holl rieni a ddaeth i'n prynhawn Coffi a Chlonc yr wythnos hon. Roedd yn gyfle gwych i gael sgwrs anffurfiol am sut mae eu plant yn ymdopi ac yn ymgartrefu yn yr ysgol newydd yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Roedd yn hyfryd cael rhannu profiadau, ateb cwestiynau a chryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus!

A big thank you to all the parents who joined us for our Coffee and Chat afternoon this week. It was a fantastic opportunity to have informal conversations about how their children are settling into their new school and coping with the first half term. It was lovely to share experiences, answer questions and strengthen the relationship between home and school. Thank you all for your continued support!







LLWYDDIANT ARBENNIG YNG NGWOBRAU ARLOESEDD CBAC

Llongyfarchiadau enfawr i bedwar o ddisgyblion talentog Adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Bro Pedr ar ôl i'w gwaith gael ei ddewis i'w arddangos yng Ngwobrau Arloesedd CBAC yr wythnos diwethaf. Mae'r gwobrau mawreddog hyn yn dathlu'r gwaith gorau o blith myfyrwyr Dylunio a Thechnoleg ledled Cymru ac yn rhoi'r cyfle i brosiectau eithriadol gael eu harddangos i gynulleidfa ehangach. Mae cael eich dewis yn gydnabyddiaeth o safon uchel y gwaith dylunio, creadigrwydd a'r ymroddiad a ddangoswyd drwy gydol eu hastudiaethau. Y disgyblion a gafodd y fraint o weld eu gwaith yn cael ei arddangos oedd:

Anest Jones – UG Ffasiwn a Thecstilau
Hugo Douglas – Safon Uwch Dylunio Cynnyrch
Lucy Moyes – Safon Uwch Dylunio Cynnyrch
Emma Warner – TGAU Dylunio Cynnyrch

Mae'r llwyddiant hwn yn dystiolaeth o'u dawn, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i gynhyrchu gwaith o'r safon uchaf. Mae hefyd yn adlewyrchu cryfder ac ansawdd y ddarpariaeth Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Bro Pedr. Hoffem longyfarch Anest, Hugo, Lucy ac Emma ar eu cyflawniad arbennig ac estyn ein diolch i staff yr adran am eu cefnogaeth a'u harweiniad. Rydym yn falch iawn o'u llwyddiant ac yn edrych ymlaen at ddilyn eu datblygiad a'u cyflawniadau yn y dyfodol.









OUTSTANDING SUCCESS AT THE WJEC INNOVATION AWARDS

Huge congratulations to four talented students from the Design and Technology Department at Ysgol Bro Pedr, whose work was selected for display at the WJEC Innovation Awards last week.

These prestigious awards celebrate the very best work produced by Design and Technology students across Wales, providing an opportunity for exceptional projects to be showcased to a wider audience. Having their work selected for exhibition is a significant achievement and recognition of the high standard of design, creativity and dedication demonstrated throughout their studies.

The students whose work was exhibited were:

- Anest Jones – AS Fashion and Textiles
- Hugo Douglas – A Level Product Design
- Lucy Moyes – A Level Product Design
- Emma Warner – GCSE Product Design

This success is a testament to their talent, hard work and commitment to producing work of the highest quality. It also reflects the strength and excellence of Design and Technology provision at Ysgol Bro Pedr. We would like to congratulate Anest, Hugo, Lucy and Emma on this outstanding achievement and extend our thanks to the department staff for their support and guidance. We are extremely proud of their success and look forward to following their future progress and accomplishments.









NOSWEITHIAU RHIENI
PARENTS EVENINGS

thanks for your support

Bydd wythnos olaf yr hanner tymor yn un prysur gyda nifer o Nosweithiau Rhieni. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr i rieni a gofalwyr gwrdd â staff, trafod cynnydd eu plentyn a chydweithio â ni i sicrhau'r gefnogaeth orau bosibl.

- Dysgu Sylfaen - Derbyn, Blwyddyn 1 a 2: Dydd Mawrth, 20fed o Hydref rhwng 3:30yp-6:30yh yn Neuadd campws ein disgyblion oed cynradd
- Blwyddyn 11: Dydd Mawrth, 20fed o Hydref, 4-6yh yn ein Neuadd a'n Gampfa ar ein campws oed uwchradd
- Cyfnod Allewddol 2 - Branwen, Olwen, Hathren, Grannell ac Arthur: Dydd Mercher, 21ain o Hydref rhwng 3:30yp-6:30yh yn Neuadd campws ein disgyblion oed cynradd

Ar gyfer Nosweithiau Rhieni Dysgu Sylfaen a CA2, bydd apwyntiadau 6 munud a bydd llyfrau'r disgyblion ar gael i rieni a gofalwyr eu gweld cyn neu ar ôl eu hapwyntiad. Dylid archebu apwyntiad drwy ap My Child at School. Bydd y ffenestr archebu yn cau am 10yb ddydd Gwener, 16eg o Hydref ar gyfer Dysgu Sylfaen. Os oes angen dolen actifadu arnoch, cysylltwch â'r ysgol.

Diolch yn fawr i'n rhieni a'n gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r ysgol ac at barhau i weithio mewn partneriaeth er lles ein disgyblion.

The final week of the half-term will be a busy one, featuring several Parents' Evenings. These are valuable opportunities for parents and carers to meet staff, discuss their child's progress and work with us to ensure the best possible support.

Foundation Phase - Reception, Years 1 and 2: Tuesday, 20th of October, 3:30pm-6:30pm in our Hall on our primary-age campus

Year 11: Tuesday, 20th of October, 4pm-6pm in our Hall and Gym on our secondary-age campus

Key Stage 2 - Branwen, Olwen, Hathren, Grannell, and Arthur: Wednesday, 21st of October, 3:30pm-6:30pm in our Hall on our primary-age campus

For Foundation Phase and KS2 Parents' Evenings, appointments will last 6 minutes, and pupils' books will be available for parents and carers to view before or after their appointment. Appointments should be booked via the 'My Child at School' app. The booking window for Foundation Phase closes at 10am on Friday, 16th of October. If you require an activation link, please contact the school.

Many thanks to our parents and carers for your continued support. We look forward to welcoming you to the school and to continuing to work in partnership for the benefit of our pupils.

Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu i:
We're looking forward to welcoming you to:

NOSON RIENI
BLWYDDYN 11
YEAR 11
PARENTS EVENING

Cefnogwch eich plentyn
Support your child

Dydd Mawrth
Tuesday

Hydref 20
October 20

4:00 - 6:00

Dewch yn llu
i'n Neuadd a'n Gamfa

Please come to
our Hall and our Gym

AROLWG GOFAL PLANT CEREDIGION 2026
CEREDIGION CHILDCARE SURVEY 2026

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal Arolwg Gofal Plant 2026 i gasglu barn rhieni a gofalwyr am y ddarpariaeth gofal plant yn y sir. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cyfrannu at yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ac yn helpu i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.
Rydym yn annog pob rhiant a gofalwr i gymryd tua 5 munud i gwblhau'r arolwg a rhannu eu barn drwy'r cod QR isod. Y dyddiad cau yw 16eg o Hydref 2026.
Diolch ymlaen llaw am eich cymorth i helpu i lunio dyfodol gofal plant yng Ngheredigion.







Ceredigion County Council is conducting the Childcare Survey 2026 to gather the views of parents and carers on childcare provision across the county. The information collected will contribute to the Childcare Sufficiency Assessment and help shape future childcare services in Ceredigion.
We encourage all parents and carers to take approximately 5 minutes to complete the survey and share your views via the QR code below. The closing date is 16th of October 2026.
Thank you for helping to shape the future of childcare in Ceredigion.





SCAN ME!

YMARFERION EIN CYNHYRCHIAD YSGOL
OUR SCHOOL PRODUCTION PRACTICES

Wrth i'r cyffro gynyddu ar gyfer ein cynhyrchiad o School of Rock, mae ein disgyblion talentog wedi bod yn gweithio'n hynod galed y tu ôl i'r llenni. Mae ymarferion yn cael eu cynnal yn ystod amserau egwyl a chinio ac ar ôl ysgol, gyda'r disgyblion yn dangos ymrwymiad ac angerdd aruthrol wrth iddynt baratoi ar gyfer y perfformiad.

Er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ddysgu ac amser gwersi, bydd nifer o ymarferion hefyd yn cael eu cynnal ar ddyddiau Sul. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth rhieni a gofalwyr wrth helpu disgyblion i fynychu'r sesiynau pwysig hyn. Mae mynychu ymarferion yn rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynhyrchiad yn llwyddiant.

Os na all disgybl fynychu ymarfer, mae'n bwysig cysylltu â'r ysgol yn brydlon fel y gellir gwneud trefniadau priodol. Diolch am eich cefnogaeth barhaus, ac edrychwn ymlaen at rannu sioe sy'n addo bod yn wych gyda'n cymuned.

YMARFERION DYDD SUL, 10-3:

SUNDAY PRACTICES, 10-3:

18/10/2026

01/11/2026

08/11/2026

22/11/2026

29/11/2026

06/12/2026



As excitement continues to build for our upcoming production of School of Rock, our talented pupils have been working incredibly hard behind the scenes. Rehearsals are taking place during breaktimes, lunchtimes and after school, with pupils showing tremendous commitment and enthusiasm as they prepare for the performance.

To minimise any impact on learning and lesson time, a number of rehearsals will also take place on Sundays. We are very grateful for the support of parents and carers in helping pupils attend these important sessions.

